# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1119(HER) a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ar 19 Ebrill 2010

**At Jenny Randerson:**

Yn ystod y sesiwn holi yn y cyfarfod llawn ar 23 Mawrth 2010, addawais holi Chwaraeon Cymru (Cyngor Chwaraeon Cymru gynt) ynghylch Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen, ac ysgrifennu atoch ar ôl i mi gael ateb.

Rwy'n deall bod Chwaraeon Cymru yn ymwneud â'r mater hwn pan aethant ati i gadarnhau eu bod yn gwrthwynebu'r cais a bod Chris Basten, Cadeirydd Cymdeithas Hwylio Cymru, wedi mynd i Ymchwiliad Cyhoeddus 2008 ar ran y Gymdeithas Hwylio a Chwaraeon Cymru.

Fel y gwyddoch yn ôl pob tebyg, heriodd Western Power Distribution Investments Limited benderfyniad Gweinidogion Cymru i wrthod eu hapêl a gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, a hynny'n llwyddiannus gan fod yr Apêl wedi'i hanfon yn ôl at Weinidogion Cymru i'w hailystyried ac i ailbenderfynu arni. Yn ystod y broses ailbenderfynu, ymgynghorir â phawb a gymerodd ran o'r blaen unwaith eto. Fodd bynnag, nid oes amserlen bendant ar gyfer y gwaith hwn eto.

Byddaf wrth gwrs yn parhau i ddilyn datblygiadau ar y safle.

## Gwybodaeth ychwanegol at y Datganiad ar Adroddiad Blynyddol y Comisynydd Plant a gyhoeddwyd gan Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant, ar 7 Mehefin 2010

**At Paul Davies:**

Ar 23 Mawrth 2010, buoch yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn lle rhoddais ddatganiad llafar ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant. O ganlyniad, fe ofynnoch chi 'Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad am eu cymryd i sicrhau bod anghenion plant anabl yn cael eu diwallu?'. Addewais y byddwn yn darparu ateb i chi pan fyddwn wedi casglu gwybodaeth at ei gilydd.

Erbyn hyn, gallaf ymateb i'ch cais ac fe hoffwn eich sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy ei Chynllun Gweithredu Polisi Chwarae wedi mynegi'r ymrwymiad i ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc o ran sicrhau bod cyfleoedd chwarae ar gael iddynt yng Nghymru. Fe nodir yn glir fod hyn yn cynnwys chwarae cynhwysol sy'n darparu cyfleoedd chwarae i blant anabl.

Yn ddiweddar, cafodd y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) ei basio ac o dan y Mesur hwn, bydd angen i awdurdodau lleol wneud asesiad ffurfiol ynghylch pa mor ddigonol yw'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael o fewn eu hardal, a hynny o safbwynt ansawdd a maint. Bydd angen iddynt ddefnyddio'r asesiad i fodloni dyletswydd newydd i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael i blant yn yr ardal, mewn perthynas ag anghenion plant anabl (ymhlith pethau eraill).

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys plant anabl, eu rhieni a grwpiau sy'n eu cynorthwyo, i bennu safonau fydd â rheoliadau'n sylfaen iddynt. Caiff y safonau hyn eu cynnwys ar ffurf canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r dyletswyddau hyn.

Hefyd, bydd disgwyl i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd a sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.

Er mwyn cefnogi'r maes darpariaeth hwn ymhellach, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi grant arian er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddarparu cyfleoedd chwarae i blant anabl. Mae'r grant o £250,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi cael ei ddarparu er mwyn cynyddu'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael i blant anabl o oed cyn ysgol ac os bydd y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn gweld fod bylchau sylweddol yn y cyfleoedd chwarae sydd ar gael i blant anabl hŷn, yna byddwn yn ystyried darparu cymorth ariannol er mwyn darparu cyfleoedd chwarae yn y maes hwn hefyd. Yn ogystal, mae'r Gweinidogion wedi nodi y bydd disgwyl i awdurdodau lleol neilltuo o leiaf £250,000 o'r adnoddau sydd eisoes wedi cael eu dyrannu iddynt er mwyn rhoi arian cyfatebol i'r fenter.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i weithio gyda Thasglu Hawliau ar Waith Plant a Phobl Ifanc Anabl Cymru er mwyn ystyried a gwella'r ddarpariaeth i blant anabl, gan gynnwys cyfleodd chwarae.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â'm swyddogion